Hawdd ei Ddeall

# Newid

## Maniffesto Llafur Cymru 2024

### Beth fyddwn ni'n ei wneud os ydyn ni'n ennill Etholiad Cyffredinol 2024



Mae'r llyfryn yma wedi cael ei ysgrifennu gan **Lafur Cymru**. Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall o '**Maniffesto Llafur Cymru 2024: Crynodeb**'.

**Mehefin 2024**

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma lyfryn hawdd ei ddeall. Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 27**.

Lle mae'r llyfryn yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llafur Cymru**. Dyma ein gwefan: www.welshlabour.wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

Am y llyfryn yma ........ 4

Ein 6 cam i newid Cymru ........ 7

Ein nodau ar gyfer Cymru well ........ 9

Beth fyddwn ni’n ei wneud ........ 10

Geiriau anodd ........ 27

# Am y llyfryn yma


Llafur Cymru ydyn ni.




Dyma ein **maniffesto** ar gyfer yr **Etholiad Cyffredinol** ar 4 Gorffennaf 2024.




Yn yr **Etholiad Cyffredinol**, rydych chi'n pleidleisio dros bwy rydych chi eisiau i redeg y DU.




Mae **maniffesto** yn gynllun o beth fyddwn ni yn ei wneud os ydyn ni yn ennill yr **Etholiad Cyffredinol**. Mae'n dweud beth ydy ein hamcanion a beth rydyn ni eisiau  ei newid.



Mae hwn yn amser pwysig i wneud Cymru'n well.

## Mae ein cynllun yn canolbwyntio ar:



- Gwneud yn siŵr bod gan bawb ddigon o arian.



- Rhoi gwell gofal iechyd i bobl.



- Defnyddio adnoddau’n dda.



- Gwneud cymunedau’n ddiogel.



- Creu cymdeithas deg lle mae pawb yn gallu llwyddo.



Rydyn ni eisiau mynd i’r afael â heriau a chreu dyfodol sydd yn fwy teg.



Rydyn ni eisiau gwneud Prydain yn well gyda dwy lywodraeth Lafur - yn y DU a Chymru.




Pleidleisiwch i ni ar 4 Gorffennaf a helpu i greu dyfodol mwy teg, mwy gwyrdd i Gymru. Mae’n hen bryd newid Prydain.

# Ein 6 cam i newid Cymru



## 1. Defnyddio arian yn dda

Gwario yn ddoeth, cadw trethi'n isel, a stopio prisiau rhag mynd i fyny.




## 2. Lleihau amseroedd aros y GIG

Helpu'r rhai sydd ei angen fwyaf. Talu am hyn drwy wneud yn siŵr bod pobl yn talu eu trethi.



## 3. Hybu diogelwch ar yr arfordir

Stopio gangiau troseddol gyda **Uned Rheoli Diogelwch y Ffin** newydd. Dyma sefydliad sydd yn cael ei gyflogi gan y llywodraeth i stopio cychod anghyfreithlon rhag dod i'r DU.



## 4. Creu Ynni Prydain Fawr

Gwneud **ynni glân**, mae'n rhad ac yn gwneud swyddi newydd. Talu am hyn drwy drethu cwmnïau olew a nwy.



Mae **ynni glân** neu **ynni gwyrdd** yn meddwl gwneud ynni o bethau fel y gwynt a'r haul. Mae hyn yn llawer gwell i'r blaned na phethau fel olew a nwy.



## 5. Stopio ymddygiad gwrthgymdeithasol


Cael mwy o heddlu, cosbau mwy llym, a gwell gwasanaethau ieuenctid i gadw pobl allan o drafferth.




## 6. Cael mwy o athrawon

Cyflogi mwy o athrawon mewn pynciau pwysig. Talu am hyn drwy wneud yn siŵr bod ysgolion preifat yn talu trethi.

# Ein nodau ar gyfer Cymru well



Rydyn ni eisiau datrys problemau sydd wedi cael eu hachosi gan y blaid Geidwadol a gwneud llywodraeth sydd â nodau da.




**Ein 5 nod i Gymru ydy:**

1. **Gwneud mwy o swyddi gyda chyflog gwell.**

2. **Defnyddio ynni gwyrdd i gael biliau rhatach a swyddi newydd.**

3. **Diweddaru'r GIG gydag ysgol feddygol newydd yng Ngogledd Cymru.**

4. **Cael mwy o heddlu i gadw pawb yn ddiogel.**

5. **Cael gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb dan 25 oed.**

# Beth fyddwn ni'n ei wneud

## Adeiladu Deyrnas Unedig gryfach



**Cadw ein gwlad yn ddiogel:** Rydyn ni yn cefnogi **ataliad niwclear** y DU  ac fe fyddwn ni yn edrych ar ein cynlluniau amddiffyn. Fe fyddwn ni yn gwario digon o arian cyhoeddus ar amddiffyn.



Mae **ataliad niwclear** yn amddiffyn y DU rhag cael ei ymosod gan wledydd eraill.



**Ffiniau Gwarchodedig**: Mae Prydain yn garedig ac yn groesawgar, ond mae'n rhaid i ni reoli faint o bobl sy'n dod i mewn i'r wlad. Fe fyddwn ni yn targedu grwpiau troseddol sy'n dod â phobl mewn cychod. Fe fydd tîm newydd yn gwarchod ein ffiniau gyda mwy o swyddogion.




**Rheoli ein harian yn dda:** Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr nad ydyn ni yn gwario mwy nag sydd gennym ni. Fe fyddwn ni yn lleihau dyled y wlad o fewn 5 mlynedd.

## Hybu’r economi



Rydyn ni eisiau gwneud yr **economi** yn gryfach. Mae’r **economi** yn meddwl faint o arian sydd gan wlad.

### Fe fyddwn ni yn:



- Cadw gwariant o dan reolaeth gyda rheolau llym.



- Gweithio gyda busnesau a Llywodraeth Cymru i helpu’r **economi** i dyfu.




- Creu cynllun newydd ar gyfer diwydiant gyda syniadau o bob rhan o’r wlad.



- Dechrau **Cronfa Gyfoeth Genedlaethol** ar gyfer swyddi. Gyda £2.5 biliwn ar gyfer y diwydiant dur yn y DU, gan gynnwys Cymru.



- Sefydlu **Great British Railways**, i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar wella trenau yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn meddwl na fydd trenau'n cael eu rhedeg gan gwmnïau preifat.



- Adeiladu 20,000 o gartrefi tai cymdeithasol.



- Gwneud **cytundeb newydd i weithwyr**. Fe fyddwn ni yn stopio contractau gwaith annheg ac yn gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn cael hawliau da. Pethau fel amser i ffwrdd pan fyddan nhw yn sâl neu'n cael babi.

# Gwneud Prydain yn arweinydd mewn ynni glân



Rydyn ni eisiau gofalu am natur wrth wneud yr **economi** yn well.

**Fe fyddwn ni yn:**



- Creu **Ynni Prydain Fawr** i leihau biliau a gwneud ein ynni ein hunain.




- Gwneud 650 mil o swyddi newydd drwy ein cynllun o'r enw **Cynllun Ffyniant Gwyrdd**.



- Gwneud cartrefi **tai cymdeithasol** Cymru  yn well wrth ddefnyddio ynni.



> Tai sy'n eiddo i gynghorau lleol a chymdeithasau tai ydy **tai cymdeithasol**. Maen nhw yn gartrefi mwy fforddiadwy.



- Delio â phroblemau gyda'r hinsawdd a diogelu natur. Mae hyn am stopio'r blaned rhag mynd yn boethach oherwydd defnyddio pethau fel olew a nwy.



- Gweithio i stopio llygredd mewn afonydd a stopio llifogydd.



- Helpu ffermwyr i ddefnyddio'r tir yn dda a gofalu am anifeiliaid.

# Gwneud ein strydoedd yn fwy diogel




Rydyn ni eisiau i'r heddlu ymateb yn gyflym i alwadau 999 ac edrych ar droseddau yn dda.



Rydyn ni eisiau i bobl ymddiried yn yr heddlu yn fwy a gwneud yn siŵr bod dioddefwyr yn cael cyfiawnder. Rydyn ni'n credu bod y Ceidwadwyr wedi achosi mwy o droseddu i ddigwydd.

**Fe fyddwn ni yn:**



- Llogi mwy o Heddlu lleol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH).



- Defnyddio **Gorchmynion Parch** i stopio oedolion rhag achosi trafferthion yng nghanol trefi. Rheolau fyddai'r rhain i stopio pobl rhag mynd i rai ardaloedd os ydyn nhw'n achosi trafferthion.



- Stopio pobl rhag gollwng sbwriel.



- Lleihau troseddau cyllyll a gwahardd arfau peryglus.



- Defnyddio timau arbennig i gefnogi menywod sy'n dioddef trais.



- Gwario mwy o arian ar wasanaethau ieuenctid.



- Gwneud carchardai yn well a helpu pobl i beidio â mynd yn ôl i droseddu.

## Mwy o gyfleoedd i bawb



Rydyn ni eisiau i bawb ym Mhrydain gael cyfle teg i lwyddo ar sail gwaith caled, nid eu cefndir.

**Fe fyddwn ni yn:**



- Llogi mwy o athrawon ar gyfer pynciau pwysig ar draws Cymru. Talu am hyn drwy wneud yn siŵr bod ysgolion preifat yn talu trethi.



- Gwneud yn siŵr bod pob plentyn ysgol gynradd yn cael cinio a brecwast am ddim.



- Cefnogi dysgu Cymraeg mewn ysgolion. Rydyn ni eisiau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



- Darparu **gwarant y person ifanc**. Dyma lle bydd gan bawb rhwng 16 a 24 oed swydd, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth.



- Darparu mwy o ofal plant i helpu mwy o bobl i weithio.



- Cynnig **prentisiaethau** da.

**Prentisiaeth** ydy pan fydd rhywun yn dysgu wrth wneud gwaith.



- Gwneud yn siŵr bod myfyrwyr yn gallu mynd i'r brifysgol neu'r coleg a chael help.



- Helpu mwy o bobl i fwynhau'r celfyddydau a cherddoriaeth.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu trin yn deg. Fe fyddwn ni yn diogelu hawliau **grwpiau lleiafrifol** ar draws y wlad.

> Grŵp llai mewn cymdeithas ydy **grŵp lleiafrifol**. Er enghraifft, pobl sydd wedi dod yn wreiddiol o wlad neu ddiwylliant arall.



- Helpu pobl anabl i gael gwell cymorth mewn swyddi, cael eu trin yn deg, a chlirio'r ôl-groniad **Mynediad at Waith**. Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr eu bod nhw yn gallu rhoi cynnig am swyddi heb golli eu budd-daliadau ar unwaith.

> **Mynediad at Waith** ydy'r help rydych chi'n gallu ei gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn yn gallu meddwl arian sydd yn cael ei alw yn grant.



- Diogelu pobl **LHDT+** ac anabl drwy wneud cosbau am droseddau casineb yn eu herbyn yn fwy difrifol.

> Mae **LHDT+** yn meddwl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol ac eraill.

# Gwneud GIG cryf ar gyfer y dyfodol



Rydyn ni yn falch bod y GIG wedi dechrau yng Nghymru. Mae gan y GIG broblemau fel mwy o bobl sydd angen gofal ac amseroedd aros hirach. Fe fyddwn ni yn parhau i gefnogi'r GIG a'i wella.

## Fe fyddwn ni yn:





- Gwneud amseroedd aros y GIG yn llai, a talu amdanyn nhw drwy wneud yn siŵr bod pobl yn talu eu trethi.



- Hyfforddi mwy o feddygon a nyrsys, gydag ysgol feddygol newydd yng Ngogledd Cymru.



- Uwchraddio offer a pheiriannau'r GIG.




- Rhoi mwy o ddewisiadau gofal a fferyllfeydd lleol i bobl.



- Ei gwneud hi'n haws cael gofal deintyddol.



- Newid sut mae gofal cymdeithasol yn gweithio yn y tymor hir.



- Gwella gwasanaethau a hawliau iechyd meddwl.

# Ymddiriedaeth a thegwch



Dydy pobl ddim yn ymddiried mewn gwleidyddiaeth gymaint oherwydd problemau gyda'r Ceidwadwyr.

**Fe fyddwn ni yn:**



- Sefydlu **Comisiwn Moeseg ac Uniondeb** i wneud yn siŵr bod gwleidyddion yn ymddwyn yn dda.



- Gweithio gyda llywodraethau yng Nghymru a'r Alban.



- Gwneud yn siŵr bod **Fframwaith Cyllid Cymru** yn gweithio'n dda. Dyma sut mae arian yn cael ei reoli yng Nghymru.



- Rhoi £195 miliwn yn fwy i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.



- Gadael i Lywodraeth Cymru reoli cymorth cyflogaeth yng Nghymru.



- Gwneud i gyfiawnder ieuenctid a gwasanaeth prawf weithio'n well yng Nghymru.



- Gwneud Gymru'n adnabyddus ar draws y byd.



- Caniatáu i bobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio ar draws y DU, fel maen nhw'n gallu gwneud yng Nghymru.

# Cysylltu Prydain â'r byd



Rydyn ni eisiau i Brydain fod yn gryf eto. Fe fyddwn ni yn gwneud dewisiadau da sy'n helpu pawb.



Yng Nghymru, mae gennym ni gwmnïau mawr yn barod o wledydd ar draws y byd. Mae cwmnïau Cymreig yn gwerthu pethau i lawer o wledydd eraill.

## Fe fyddwn ni yn:



- Helpu ein milwyr a'n pobl sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog.



- Gwneud cytundebau newydd gyda gwledydd eraill a gweithio'n well gyda'r Undeb Ewropeaidd (UE).



- Arwain **Cynghrair Pŵer Glân** newydd i helpu'r amgylchedd.



- Gweithio'n well gyda gwledydd eraill o gwmpas y byd.



- Gwneud yn siŵr bod sut rydyn ni'n helpu gwledydd eraill yn ddefnyddiol ac yn gweithio'n dda.

# Newid



Mae’r etholiad yma yn gyfle i newid Prydain er gwell. Rydyn ni’n gallu datrys y problemau a chreu dyfodol mwy disglair i bawb.




Mae’r **maniffesto** yma  yn dangos sut rydyn ni yn bwriadu dechrau gwneud y newidiadau yma. Mae’n amser i ddod at ein gilydd. Mae Prydain angen hyn, ac rydyn ni yn gobeithio y byddwch chi yn ymuno gyda ni.




Pleidleisiwch i ni ar 4 Gorffennaf. Mae’n hen bryd newid Prydain.

# Geiriau anodd

### Ataliad niwclear

Mae'r rhain yn amddiffyn y Deyrnas Unedig rhag cael ei ymosod gan wledydd eraill

### Economi

Mae'r economi yn meddwl faint o arian sydd gan wlad

### Grŵp lleiafrifol

Grŵp llai mewn cymdeithas ydy grŵp lleiafrifol. Er enghraifft, pobl sydd wedi dod yn wreiddiol o wlad neu ddiwylliant arall.

### LHDT+

Mae hyn yn meddwl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol ac eraill.

### Mynediad i Waith

Mynediad at Waith ydy'r help rydych chi'n gallu ei gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn yn gallu meddwl arian sydd yn cael ei alw yn grant.

### Prentisiaeth

Prentisiaeth  ydy pan fydd rhywun yn dysgu wrth wneud gwaith.

### Tai cymdeithasol

Tai sy'n eiddo i gynghorau lleol a chymdeithasau tai ydy'r rhain. Maen nhw yn gartrefi mwy fforddiadwy.

### Ynni glân neu ynni gwyrdd

Mae ynni glân neu ynni gwyrdd yn meddwl gwneud ynni o bethau fel y gwynt a'r haul. Mae hyn yn llawer gwell i'r blaned na phethau fel olew a nwy.

Welsh Labour Llafur Cymru